



Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Ar-lein (Zoom)		
Dyddiad Date	15/10/20	Amser Time	13.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Sector Preifat:		
Nigel Peacock	Contractwr Hunangyflogedig	NP
Dylan Evans	Contractwr Hunangyflogedig	DE
Endaf Griffiths	Wavehill	EG
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Sian Purcell	Medrwn Môn	SP
Neville Evans	Iorwerth Arms Bryngwran	NE
Adrian Roberts	Hafren Gwy	AR
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Molly Lovatt	CNC	ML
Martine Jardine (Cadeirydd)	Coleg Menai/Llandrillo	MJ
Dewi Lloyd	Cyngor Sir Ynys Môn	DLI
Staff Menter Môn		
Jackie Lewis	Menter Môn a chofnodion	JL
Meilir Pritchard	Menter Môn	MP
Sioned Morgan Thomas	Menter Môn	SMT
Dafydd Gruffydd	Menter Môn (MD)	DG



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



Craig Hughes	Menter Môn	CH
Gwesteion		
Paul Sandham	Contractwr Preifat	PS
Endaf Griffiths	Wavehill	EG
Susan Yapp	Llywodraeth Cymru (Rhwydwaith Gwledig Cymru)	SY

Pwynt	Manylion	Pwynt Gweithredu
1	<p><u>Croeso</u></p> <p>Croesawodd MJ bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Peter Davies am gadeirio'r cyfarfod diwethaf, a gofynnodd hefyd i bawb oedd yn bresennol i annog aelodau/cydweithwyr ar y LAG i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y dyfodol.</p>	
2	<p><u>Ymddiheuriadau</u></p> <p>Peter Davies Pryderi Ap Rhisiart Robin Grove White Sue Roberts Mari Faulkner Alwyn Williams</p>	
3	<p><u>Datgan Buddiant</u></p> <p>Cafwyd datganiad o fuddiant gan:</p> <p>Nigel Peacock - Olwyn Môn</p>	
4	<p><u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 13-2-20</u></p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf</p> <p>Cynnig – Molly Lovatt Eilio – Nigel Peacock</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



5	<p><u>Diweddariadau Cyffredinol</u></p> <p><u>Aelodaeth LAG</u></p> <p>Dywedodd SMT wrth y cyfarfod fod y Cylch Gorchwyl ar gyfer aelodaeth LAG wedi'i newid i gynnwys cymal sy'n datgan bod methiant i fod yn bresennol mewn tri chyfarfod yn olynol neu i anfon dirprwy yn golygu na fyddai'r unigolyn hwnnw bellach yn aelod o'r LAG –mae presenoldeb Deialu i mewn neu Zoom yn dderbyniol yn awr.</p> <p>Awgrymodd ML fod angen diwygio'r ddogfen i ystyried canllaw a deddfwriaethau cyfredol y llywodraeth, yn enwedig y rhai sy'n ymdrin ag adferiad gwyrdd, yr agenda llesiant a 5 ffordd o weithio, y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Cytunodd pawb y byddai angen i hyn gael ei gynnwys a'i aillddosbarthu.</p> <p><u>Cyllid</u></p> <p>Yn unol â'r cytundeb LAG yn y cyfarfod diwethaf, dywedodd SMT y byddai'r hyn sy'n weddill o'r Gronfa Cymunedau Creadigol o fewn LEADER yn cael ei ddadneilltuo a'i ddychwelyd i'r gronfa lawn o arian sydd ar ôl. Hefyd, byddai'r canlynol yn cael eu dadneilltuo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pac Môn (Newyddiaduraeth Wledig) • Môn 2020 • Sylfaen <p>Bydd cyfanswm y dadneilltuo yn 79,500 a byddwn felly am gymeradwyo gwariant o 43.5K ym mhob cyfarfod LAG tan fis Rhagfyr 2022</p> <p>Gofynnodd ML a ellid addasu'r prosiect Sylfaen i edrych ar adeiladu/datblygu tai cymdeithasol yn y dyfodol a'r prinder sgiliau ymhlith contractwyr lleol.</p> <p>Gofynnodd hefyd am gyfarfod i drafod y posibilrwydd o brosiect newydd sy'n gysylltiedig â'r Adferiad Covid Gwyrdd gan fod</p>	<p>Molly Lovatt i anfon datganiadau amgylcheddol at SMT/JL i'w cynnwys yn nogfennau'r Cylch Gorchwyl</p>
---	--	---



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>gwrthdaro'n parhau wrth i gymunedau golli eu gofod gwyrdd i dai yn hytrach na bod datblygwyr ac awdurdodau lleol yn edrych ar fwy o safleoedd Tir Llwyd ar gyfer y datblygiad hwnnw.</p> <p>Dywedodd DLI ei bod yn rhatach i adeiladu ar safleoedd gwyrdd a bod hyn yn wir yn mynd yn broblem ac y byddai'n gwerthfawrogi cael bod yn rhan o unrhyw drafodaethau.</p> <p>Cytunodd DG i gwrdd â ML a DLI i drafod y mater ymhellach</p> <p><u>Môn Ddigidol</u></p> <p>Cafodd y grŵp ei ddiweddarau gan MP ar fentrau posibl yn y dyfodol yn ymwneud ag allgau digidol a chysylltedd, problem sydd wedi'i hamlygu ymhellach gan COVID19.</p> <p>Mae grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys MM, Cyngor Ynys Môn, Medrwn Môn a Chanolfan Cydweithredol Cymru, wedi dod at ei gilydd i drafod materion yn ymwneud â chysylltedd ac allgau digidol ar yr ynys. Mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Digital Hook (a ariannwyd drwy LEADER) yn dal yn gyfredol heddiw, ac roedd wedi'i ddsbarthu i'r holl randdeiliaid cyn y cyfarfod heddiw.</p> <p>Bydd staff LEADER yn parhau i drafod a gweithio ochr yn ochr â Chanolfan Cydweithredol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ganfod datrysiadau posibl cyn diwedd y flwyddyn.</p> <p><u>App Tracio ac Olrhain</u></p> <p>Dywedodd SMT na fydd angen bellach am yr App Tracio ac Olrhain ac y bydd y cyllid yn cael ei ddadneilltuo. Roedd y dadneilltuo wedi'i ddangos eisoes yn adran diweddariad ariannol yr adroddiad cynnydd.</p>	<p>Cyfarfod i'w drefnu</p>
7	<p><u>Diweddariadau ar Brosiectau</u></p> <p><u>Olwyn Môn a Lôn Las Môn</u></p> <p>Dywedodd DG fod Michael Chown wedi bod yn gweithio ar adroddiad Lôn Las Môn a'i fod yn aros am y drafft terfynol; bydd hwn wedyn yn cael ei rannu â'r LAG.</p>	<p>Rhennir yr adroddiad terfynol â'r LAG</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Roedd NP yn awyddus i ddarllen yr adroddiad gan mai dyna fydd yn penderfynu a fydd prosiect Olwyn Môn yn parhau.</p> <p>Cadarnhaodd SMT a DG fod MM yn dal yn gryf o blaid dod â grŵp o randdeiliaid ynghyd i drafod ymhellach ac y byddai'n parhau fel pwynt gweithredu.</p> <p>Hoffai ML hefyd fod yn rhan o unrhyw grŵp rhanddeiliaid gan nad oedd cais Corsydd CNC i'r HLF wedi bod yn llwyddiannus ac y byddai unrhyw ddatblygiad ar yr un trywydd o ddi-ddordeb mawr yn enwedig i gysylltu cymunedau â gofod gwyrdd fel y digwyddodd ar hyd King Alfred's Way https://www.cyclinguk.org/king-alfreds-way</p> <p>Mae MJ a NP yn awyddus i lobio am lwybr Seiclo Arfordir Cymru</p> <p>NP a DG i drafod ar ôl LAG.</p> <p><u>Hydrogen</u></p> <p>Dywedodd DG fod astudiaeth LEADER fechan wedi arwain at gyflwyno cais partneriaeth (gyda Chyngor Ynys Môn) i Lywodraeth Cymru am £270k. Bydd y cais yn edrych ar fodel peirianeg manwl o Hyb Hydrogen wedi'i leoli yng Nghaergybi. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at gais £5-6 miliwn arall i adeiladu'r hyb a fydd yn defnyddio hydrogen glân ac yn creu 25 o swyddi yn y lle cyntaf.</p> <p><u>BRO Môn</u></p> <p>Diweddarodd JL y grŵp ar gynnydd Bro Môn ac eglurodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mai nod Bro Môn yw darparu cymorth i ymarferwyr profiadol i helpu mentrau cymdeithasol hen a newydd drwy dull 'gafael llaw' sy'n debyg i fodel Bro Ffestiniog • Roedd cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru, gyda 6 chyfarwyddwr o blith mentrau cymdeithasol sy'n masnachu • Mae'r wefan bron yn barod • Caiff Bro Môn ei lansio fis Tachwedd 2020 gan Ken Skates • Bydd ffilm fer yn cael ei chynhyrchu ar gyfer yr achlysur yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau COVID-19 	<p>MM i gydlynu cyfarfod cyntaf grŵp rhanddeiliaid seiclo</p> <p>JL i drefnu cyfarfod</p>
--	---	---



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p><u>Store Tally</u></p> <p>Dywedodd MP fod 5 Store Tally wedi'u gosod mewn busnesau ym Môn a 5 yng Ngwynedd (pob un yn BBaCh) - mae'r Tally yn cyfrif faint o bobl sy'n mynd i mewn i siopau a phan fydd y nifer penodol wedi'i gyrraedd, bydd y Tally yn newid o wyrdd i goch nes bydd nifer y bobl yn y siop yn gostwng, a bydd wedyn yn troi'n ôl i wyrdd.</p> <p>Mae'r busnesau'n hapus iawn â'r peilot ac mae dau wedi mynegi awydd i'w brynu.</p> <p>Gofynnodd JL a fyddai modd symud y Tally ar ôl 6 mis i sicrhau gwasgariad daeryddol gwell – cafwyd ymateb positif gan MP (y mater i'w drafod).</p> <p>Gofynnodd MJ pwyl sy'n berchen ar Store Tally – dywedodd DG mai'r cwmni sydd wedi'i ddatblygu sy'n berchen arno (o fewn M Spark) a bod LEADER yn talu am y cyfarpar gyda'r cwmni'n rhoi ei amser am ddim.</p> <p>Mae ffilm fer wedi'i chynhyrchu i egluro'r cysyniad – https://www.facebook.com/mentermon/posts/3474933705900162</p> <p><u>Patrwm</u></p> <p>Mae peilot Wi Fi Tref Llangefni yn mynd yn ei flaen yn dda gyda thri phwynt mynediad wedi'u gosod yn Neuadd y Dref. Mae'r ail gam yn cynnwys siarad â busnesau lleol i sicrhau dealltwriaeth drylwyr o'r cysyniad a sut y gallant elwa drwy ei ddefnyddio.</p> <p>Cadarnhaodd MP y gall pawb weld y data ar Wefan Patrwm; fodd bynnag, nid yw'n cael ei hyrwyddo'n eang iawn, gan fod mwy o waith i'w wneud (mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn i osod Wi Fi trefi yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Porthaethwy • Caergybi • Amlwch • Biwmares 	
--	--	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Roedd ML yn awyddus i weld sut y gellid defnyddio hwn ar gyfer gofod gwyrdd a'r llwybr arfordirol a gofynnodd a oes ystyriaethau preifatrwydd yn gysylltiedig â'r dechnoleg newydd hon ac a ellid ymgysylltu â chymuned ac olrhain eu symudiadau'n effeithiol dros gyfnod o wythnos neu fis pe baent yn cofrestru ar ei gyfer <i>fel pryf ar y wal?</i></p> <p>Mae MP yn ystyried defnyddio ardal Seiriol (prosiect Cwlwm Seiriol) i gofnodi data ymwelwyr a dywedodd fod MM mewn trafodaethau hefyd â Llywodraeth Cymru a Dinas Bangor gyda'r nod o ehangu'r model.</p> <p>Gofynnodd MJ pwy sy'n berchen ar yr Eiddo Deallusol a sut ellid ariannu hyn yn y dyfodol – a ellir ei lawrlwytho o gwmni ffonau symudol?</p> <p>Dywedodd DG fod ganddo gysylltiadau â'r cynllun Trefi Clyfar a byddai'n gwneud ymholiadau neu gallai fod yn eiddo i MM a chael ei reoli ganddo.</p> <p>Gwefan - www.patrwmm.iot.cymru</p> <p><u>Fideo Gen i Atoch Chi</u></p> <p>Roedd fideo gan y prosiect Gen i Atoch Chi i fod i gael ei ddangos ond nid oedd y fersiwn ddrafft wedi cael ei chymeradwyo, ac felly dangoswyd darn bychan ar yr Amgueddfa Dros Dro yn ei le.</p> <p>Canmolodd MJ yr holl fideos a gynhyrchwyd</p> <p>Roedd SP wedi'i blesio â chwmpas y prosiect</p> <p>https://drive.google.com/file/d/1i0WenFizlLeW0rWuGuo84qcks8W9ahC7/view?usp=sharing</p>	
8	<p><u>Cymeradwyo Prosiectau</u></p> <p><u>Siop.io</u></p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*




<p>Mae'r cais hwn wedi deillio o'r gwaith a wnaed i edrych ar wefannau siopa bwyd ar-lein. Eglurodd PS mai ei gwmi sydd wedi creu'r platfform a dangosodd sut y byddai'r safle'n gweithio i werthu cynnyrch bwyd lleol (addas i ffonau symudol hefyd) gan gynnwys sut y byddai busnesau yn lanlwytho:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eu cynnyrch, • Derbyn taliadau, • Trefnu i gasglu neu ddanfon cynnyrch <p>Ni roddwyd dim arian i'r gwaith hyd yma a byddai ar y peilot arfaethedig angen arian ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hwylusydd • Hyfforddiant • Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata a fyddai'n cynnwys fideos <p>Roedd ML yn awyddus i leihau'r ôl troed carbon drwy edrych ar deithio cynaliadwy ac opsiynau danfon yn hytrach na chasglu ac a fyddai monitro Ôl Troed Carbon yn cael ei fesur yn ystod y peilot ac yn cynnwys deunydd pacio ecogyfeillgar yn y peilot.</p> <p><i>Dywedodd hefyd bod gwybodaeth ddefnyddiol ar adferiad gwyrdd a sut mae CNC yn gweithio a sut y gall Datganiadau Ardal effeithio ar ein gwaith https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/area-statements/north-west-wales-area-statement/introduction-to-north-west-wales-area-statement/?lang=cy</i></p> <p>Dywedodd DLI fod cyllid ar gael ar gyfer datgarboneiddio ac ati a bod siawns y gallai grant <i>ERF Ph3 ariannu costau Siop.io</i></p> <p>https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy Gwefan – https://siop.io/</p> <p>CYMERADWYWD Y CAIS – 12.500K YN CYNWYS TAW</p>	
--	--



Ymddiriedolaeth
 Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



9	<p><u>Wavehill MM COVID a Gwerthusiad Cenedlaethol</u></p> <p>Cafwyd cyflwyniad byr gan EG (Wavehill) ar y gwaith a wnaed i werthuso ymateb MM i'r pandemig COVID a'i berfformiad fel rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol ar gyfer LEADER.</p> <p>Meddai MJ – diolch i allu MM i weithredu'n gyflym a heb fiwrocratiaeth cafodd yr ymateb y fath effaith bositif.</p> <p>Dywedodd SP fod y gweithio mewn partneriaeth a fu ar lefel leol yn cael ei edmygu ledled Cymru, ac roedd yn sicrhau bod mentrau'n cael eu cyflawni drwy gydlyn cyflym.</p> <p>Dywedodd EG er bod rhai mentrau wedi ymateb i angen tybiedig na chafodd ei wireddu, mae'r mentrau hynny ar gael a gellir eu defnyddio yn y dyfodol os bydd eu hangen</p> <p>Dywedodd EG hefyd y bydd cyfweiliadau'n cael eu trefnu cyn hir fel rhan o'r Gwerthusiad a bydd hyn yn cynnwys aelodau o'r LAG</p> <p> MM Covid-19 response presentati</p>	
10	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p>	SMT i drefnu dolen



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*





Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

